IS-BWYLLGOR TRAFNIDIAETH STRATEGOL CBC Y GOGLEDD
31/03/2025

Yn bresennol: Y Cynghorydd Goronwy Edwards (Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy) (Cadeirydd)
Y Cynghorydd Dafydd Rhys Thomas (Cyngor Sir Ynys Môn) (Is-gadeirydd)

Y Cynghorwyr:
Craig ab Iago (Cyngor Gwynedd), Barry Mellor (Cyngor Sir Ddinbych), Glyn Banks (Cyngor Sir Fflint) a David Bithell (Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam)

Aelodau Cyfetholedig (Heb Bleidlais):
Angela Jones (Parc Cenedlaethol Eryri) a Ben George (Trafnidiaeth Cymru)

Prif Swyddogion:
Huw Percy (Cyngor Sir Ynys Môn), Gerwyn Jones (Cyngor Gwynedd), Geraint Edwards (Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy), Emlyn Jones (Cyngor Sir Ddinbych), Katie Wilby (Cyngor Sir y Fflint) a Gwen Thomas (Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam).

Swyddogion yn bresennol:
Alwen Williams (Prif Weithredwr Cyd-bwyllgor Corfforedig y Gogledd), Claire Incledon (Dirprwy Swyddog Monitro), Jack Latkovic (Swyddog Democratiaeth Cyd-bwyllgor Corfforedig), David Hole (Cyd-bwyllgor Corfforedig y Gogledd) ac Andy Roberts (Swyddog Cynllunio Datblygu Strategol Rhanbarthol).

Eraill yn bresennol:
Allan Pitt (ARUP) ac Adam Graham (Trafnidiaeth Cymru)

1. YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan:-

- Dafydd Wyn Williams (Cyngor Gwynedd) gyda Gerwyn Jones yn dirprwyo
- Darren Williams (Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam) gyda Gwen Thomas yn dirprwyo)
- Iwan Evans (Swyddog Monitro)
- Dewi Morgan (Swyddog Cyllid)

2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiad o fuddiant personol.

3. MATERION BRYS

Ni chodwyd unrhyw faterion brys.

4. COFNODION

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion y cyfarfod blaenorol a gynhaliwyd ar 16 Rhagfyr 2024 fel rhai cywir.

5. ADRODDIAD CHWARTEROL YR IS-BWYLLGOR TRAFNIDIAETH STRATEGOL

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Brif Weithredwr Dros Dro CBC y Gogledd ac Arweinydd Gweithredu Rhaglen y CBC.

PENDERFYNWYD

Cymeradwyo'r Adroddiad Chwarterol gan:

1. **Argymell i Gyd-bwyllgor Corfforedig y Gogledd gynnal trafodaethau gyda Llywodraeth Cymru er mwyn derbyn diweddariad o'r trefniadau i gyllido prosiect Diwygio Bysiau ac Masnachfreinio.**
2. **Mynegi pryder am barhad gwasanaeth wrth i brosiect Diwygio Bysiau a Masnachfreinio gael ei ddatblygu ymhellach.**
3. **Gofyn am drafodaeth bellach ar gyfer cyllido gwasanaeth bws (coets) o ddwyrain i orllewin Cymru a hefyd gwasanaeth bws Gogledd Cymru i'r De, i gyd fynd gyda gwasanaethau rheilffordd drawsffiniol, heb amharu ar wasanaethau lleol.**

RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD

Cymeradwywyd y Cylch Gorchwyl yng nghyfarfod yr Is-bwyllgor ar 1 Hydref 2024. Mae'r Is-bwyllgor wedi cyfarfod ar ddau achlysur, ac ystyrir ei bod yn briodol adolygu'r gwaith a wnaed a sicrhau bod yr adnoddau cywir yn eu lle i ddiwallu datblygiadau yn y dyfodol.

TRAFODAETH

Adroddwyd mai dyma'r adroddiad chwarterol cyntaf sydd yn manylu ar ddatblygiadau, yn unol â dyletswydd gyfreithiol Cyd-bwyllgor Corfforedig y Gogledd wrth ddatblygu Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol. Ymhelaethwyd bydd adroddiad chwarterol yn cael ei gyflwyno i'r Cyd-bwyllgor Corfforedig pob chwarter er mwyn manylu ar brosiectau penodol, perfformiad ariannol yr Is-bwyllgor a'r datblygiadau sydd ar y gweill. Atgoffwyd bod y Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol yn cynorthwyo awdurdodau lleol gyda datblygiadau ac nid oes ganddo bwerau dros gynlluniau ffyrdd a rheilffordd strategol sydd y tu hwnt i reolaeth yr awdurdodau hynny.

Diolchwyd i'r Is-bwyllgor ac i'r holl rhan-ddeiliaid am eu cymorth i gyflawni'r holl ddatblygiadau a welwyd o fewn yr adroddiad.

Cadarnhawyd bod cyfnod ymgynghori ar y Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol draft wedi cychwyn ers 20 Ionawr 2025 ac yn parhau nes 14 Ebrill 2025. Eglurwyd bod y gwaith yn cael ei arwain gan ARUP ar ran y Cyd-bwyllgor, gan nodi hefyd bod cydweithio wedi digwydd gyda Thrafnidiaeth Cymru. Diweddarwyd bod dros 1120 o bobl wedi ymateb i'r ymgynghoriad hyd yma, gyda'r disgwyliad bydd y niferoedd hyn yn parhau i gynyddu'n raddol hyd at ddiwedd y cyfnod ymgynghori. Ymhelaethwyd bod ARUP wedi canfod themâu yn codi mewn nifer o'r ymatebion, ac yn eu casglu gyda'i gilydd er mwyn ymateb yn effeithiol i unrhyw bryder neu syniad a gyflwynwyd gan y cyhoedd.

Tynnwyd sylw bod timau cyfathrebu'r awdurdodau lleol wedi cefnogi'r gwaith o hyrwyddo'r ymgynghoriad cyhoeddus hwn. Ymhellach, mae'r Cyd-bwyllgor Corfforedig ac ARUP wedi cymryd pob cam er mwyn sicrhau bod cymaint o bobl â phosib gyda Mynediad i'r ymgynghoriad megis rhif ffôn dwyieithog, Ystafell ymgynghori ddigidol a hefyd drwy ddatblygu fersiwn hawdd ei ddarllen o'r ymgynghoriad er mwyn cefnogi unrhyw un a all gael heriau i ddeall a chymryd rhan yn yr ymgynghoriad hebddo.

Eglurwyd bod ARUP yn asesu'r holl ymatebion i'r ymgynghoriad cyhoeddus gan gadarnhau y byddent yn cyflwyno adroddiad ynghylch yr atebion pan yn amserol. Manylwyd bod cwestiynau meintiol wedi cael eu cynnwys yn yr ymgynghoriad a fydd yn cael ei asesu er mwyn canfod niferoedd a chanrannau ymatebion sydd yn cytuno neu'n anghytuno gyda'r

cwestiynau a datganiadau. Eglurwyd ei bod yn fwy heriol i asesu canlyniadau'r ymatebion i'r cwestiynau ansoddol gan gadarnhau bod ARUP wedi Datblygu system godio gyfrifiadurol er mwyn cynorthwyo i ganfod themau penodol a materion sydd yn peri pryder. Cadarnhawyd bod hyn yn galluogi ARUP i brosesu'r holl wybodaeth er mwyn ei rannu gyda'r Cyd-bwyllgor Corfforedig a Thrafnidiaeth Cymru am ystyriaeth. Adroddwyd bydd addasiadau perthnasol yn cael ei wneud yn dilyn hyn er mwyn gallu cyflwyno'r Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol ar ffurf draft i Lywodraeth Cymru am ystyriaeth bellach a chymeradwyaeth.

Tywyswyd yr Aelodau drwy gamau nesaf y Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol gan gadarnhau yr anelir i'w gyhoeddi'n derfynol yn ystod Medi 2025.

Eglurwyd bod Trafnidiaeth Cymru wedi bod yn cydweithio gyda'r awdurdodau lleol er mwyn datblygu nifer o brosiectau sy'n cynnig trafnidiaeth gynaliadwy ledled Gogledd Cymru. Nodwyd bod y prosiectau hyn yn cael eu hystyried yn y sylfaen polisi Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol. Manylwyd bod rhai o'r prosiectau hyn yn cynnwys Porth Wrecsam, Porth Bangor, Porth Caergybi, Porth Caernarfon a Gwella Gwydnwch Menai, gyda chyllideb wedi ei gadarnhau ar gyfer eu datblygu ymhellach yn 2025/26, gyda'r gobaith o'u cyflawni mor fuan â phosib.

Mynegwyd pryder am barhad gwasanaeth wrth i brosiect Diwygio Bysiau a Masnachfreinio gael ei ddatblygu ymhellach, gan gadarnhau bod rhai rhanddeiliaid wedi codi'r pryderon hyn gydag ysgrifennydd y Cabinet perthnasol, Ken Skates AS. Nodwyd bod awdurdodau lleol yn dymuno derbyn sicrwydd na fydd unrhyw ddatblygiadau masnachfreinio yn effeithio ar wasanaethau sydd eisiau mewn lle o fewn siroedd y Rhanbarth. Mewn ymateb, cadarnhawyd bod 'Bil Gwasanaethau Bysiau (Cymru)' bellach yn derbyn ystyriaeth y Senedd a gobeithir y byddai'n cael ei fabwysiadu'n statudol erbyn Ionawr 2026. Pwysleisiwyd ei fod yn allweddol bod awdurdodau lleol yn lleisio barn ar bwysigrwydd y mater hwn, gan fyddai denu cyllid ychwanegol yn sicrhau datblygiad gwasanaethau trafnidiaeth i'r rhanbarth.

Adroddwyd ar ddyheadau datblygiadau hirdymor rhwydwaith rheilffordd y rhanbarth. Cydnabuwyd nad yw datblygiadau i'r rhwydwaith rheilffordd wedi bod yn flaenoriaeth wrth lunio Cynlluniau Trafnidiaeth yng Nghymru yn y gorffennol gan nad yw'n fater sydd wedi cael ei ddatganoli i Lywodraeth Cymru. Fodd bynnag, pwysleisiwyd ei fod yn allweddol i'w gynnwys o fewn Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol y Cyd-bwyllgor Corfforedig. Manylwyd ar 9 ddyhead am ddatblygiad rheilffyrdd yn y Rhanbarth, gan nodi ei bod wedi derbyn ystyriaeth gan Drafnidiaeth Cymru ac Network Rail a bellach o dan ystyriaeth Prosbectws Buddsoddi Llywodraeth Cymru wrth iddynt drafod gyda Llywodraeth y DG, yn y gobaith o sefydlu cyllideb rheilffordd i Gymru. Rhannwyd enghraifft o ystyried ychwanegu trenau trydan yn y dyfodol, gan egluro gall hyn fod yn ddatblygiad newydd yn y dyfodol.

Cadarnhawyd bod Comisiwn Trafnidiaeth Gogledd Cymru wedi cael ei gomisiynu gan Lywodraeth Cymru er mwyn llunio argymhellion ar faterion trafnidiaeth yn y rhanbarth. Eglurwyd bod y Comisiwn wedi nodi 60 o argymhellion, gyda sylwadau ychwanegol am gysylltiadau Pont Menai. Pwysleisiwyd bod yr argymhellion hyn wedi dylanwadu ar ddatblygiad Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol drafft Cyd-bwyllgor Corfforedig y Gogledd, oni bai am 3 argymhelliad sydd yn cael eu datblygu'n uniongyrchol gan Lywodraeth Cymru.

Diweddarwyd bod grŵp ymgynghorol Hunt-Medi wedi cael ei ffurfio gyda chefnogaeth ARUP, Comisiwn Dylunio Cymru, Swyddogion Llywodraeth Cymru, Trafnidiaeth Cymru a'r Panel Dethol. Eglurwyd mai ei nod yw deall rhwystrau i ddatblygiadau cynaliadwy, gan wneud argymhellion ar ffyrdd gwell o weithio er mwyn sicrhau canlyniadau gwell i bawb yng Nghymru. Nodwyd bod yr heriau a adnabuwyd yn ystod gwaith y grŵp ymgynghorol hwn wedi bwydo mewn i'r Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol drafft.

Cyfeiriwyd at Wasanaeth Bws Cyflym Gogledd-De, gan fod Trafnidiaeth Cymru yn ceisio barn ar gynigion ar gyfer gwasanaeth newydd a all gael ei gyflwyno yn ystod 2026. Manylwyd byddai'r gwasanaeth yn cysylltu Bangor gyda Chaerfyrddin yn gyflymach na'r darpariaethau cyfredol. Nodwyd hefyd bod ystyriaethau am wasanaeth cyflym Dwyreiniol-Gorllewinol ond byddai'r holl ddatblygiadau hyn yn ddibynnol ar adborth o ymgynghoriad cyhoeddus yn ogystal â chyllidebau.

Nodwyd bod y gwaith o gasglu adnoddau ar gyfer y Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol yn cael ei oruchwylio gan Arweinydd Gweithredu Rhaglen Cyd-bwyllgor Corfforedig y Gogledd ar y cyd gyda gwasanaethau ymgynghori ARUP a Thrafnidiaeth Cymru. Eglurwyd bydd y Prif Weithredwr Dros Dro yn cychwyn proses recriwtio unigolion sydd ag arbenigedd cynllunio trafnidiaeth i gynorthwyo gyda'r gwaith hyn, yn dilyn y trosglwyddiad i Gyd-bwyllgor Corfforedig y Gogledd ar 1 Ebrill 2025.

Cadarnhawyd bod holl wariant o ddatblygu Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol yn bennaf yn deillio o gratiau a dderbyniwyd gan Lywodraeth Cymru. Ymhelaethwyd bod comisiynu ARUP i ddarparu cymorth technegol a chyflawni ers dechrau 2024 wedi arwain at wariant o £193,170 hyd yma. Adroddwyd bod Cyd-bwyllgor Corfforedig y Gogledd mewn trafodaethau gyda Llywodraeth Cymru er mwyn cadarnhau dyraniadau ariannol ar gyfer y flwyddyn ariannol 2025/26, ond nad oes cadarnhad o'r gyllideb ar hyn o bryd.

6. DIWEDDARIAD CYNNYDD AR Y CYNLLUN DATBLYGU STRATEGOL A'R BERTHYNAS GYDA'R CYNLLUN TRAFNIDIAETH RHANBARTHOL

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Brif Weithredwr Dros Dro CBC y Gogledd a Swyddog Cynllunio Datblygu Strategol Rhanbarthol.

PENDERFYNWYD

- **Derbyn yr Adroddiad gan nodi'r cynnydd ar y Cynllun Datblygu Strategol a'r berthynas gyda'r Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol hyd yma.**
- **Rhaglennu Adroddiad pellach i'r Is-bwyllgor hwn er rannu gwybodaeth gydag aelodau o gynlluniau, megis bws trydan, a geir o fewn prosiect Anturiaethau Cyfrifol Cyd-bwyllgor Corfforedig y Gogledd.**

RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD

Sicrhau bod yr Is-bwyllgor Trafnidiaeth Strategol yn gwbl ymwybodol o'r cynnydd gyda'r Cynllun Datblygu Strategol o gyfnod cynnar, i hyrwyddo ymgysylltiad rheolaidd ac ymagwedd integredig at gynllunio strategol.

TRAFODAETH

Croesawyd y Swyddog Cynllunio Datblygu Strategol Rhanbarthol i'w gyfarfod cyntaf.

Darparwyd diweddariad o'r broses o ddatblygu Cynllun Datblygu Strategol a'r camau gweithredu sydd angen eu cyflawni. Ymhelaethwyd ar ystyriaethau amserlenni a gofynion cyfreithiol wrth fynd ati i ddatblygu'r Cynllun.

Nodwyd bod datblygu'r cynllun yn sicrhau bod Cyd-bwyllgor Corfforedig y Gogledd yn ymateb i ofynion statudol o fewn Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 am faterion lles economaidd rhanbarthol, cynllunio gofodol a chynllunio trafnidiaeth. Ymhelaethwyd bod Llawlyfr Cynllun Datblygu Strategol wedi cael ei gyflwyno i Awdurdodau Cynllunio Lleol gan Lywodraeth Cymru yn 2022 gan ddarparu arweiniad ar sut i ddatblygu Cynllun. Cadarnhawyd y disgwylir y byddai'n cymryd 5 mlynedd i gynhyrchu

Cynllun Datblygu Strategol lawn. Pwysleisiwyd bod gwaith yn mynd rhagddo er mwyn ystyried os all Cyd-bwyllgor Corfforedig y Gogledd wneud addasiadau i weithdrefnau er mwyn cyflymu'r broses ble'n briodol.

Eglurwyd bod y Cynllun Datblygu Strategol yn un hirdymor a all fod yn weithredol am hyd at 25 mlynedd. Cadarnhawyd bod hyn yn caniatáu'r gallu i edrych ymlaen at ddatblygiadau'r dyfodol a sicrhau bod y materion hanfodol yn cael eu datblygu ar gyfer y rhanbarth cyfan. Tynnwyd sylw bod y Cynllun yn rhedeg ar y cyd gyda phrosiectau eraill Cydbwyllgor Corfforedig y Gogledd er mwyn sicrhau llesiant economaidd a bod isadeiledd addas ar gyfer cyrraedd targedau a gwireddu datblygiadau newydd.

Cadarnhawyd mai'r cam cyntaf wrth ddatblygu'r Cynllun bydd i baratoi Cytundeb Cyflawni. Ymhelaethwyd bydd y Cytundeb yn manylu ar sut bydd y Cynllun yn cael ei ddatblygu yn ogystal â chadarnhau sut gall rhan-ddeiliaid a'r gymuned fod yn rhan o'r broses datblygu. Manylwyd ar amserlen gychwynnol y broses ddatblygu gan nodi bod 8 prif gam ar gyfer datblygu'r Cynllun. Adroddwyd ar amserlen ddangosol y Cytundeb Cyflawni, gan nodi y gobeithir bydd Cyd-bwyllgor Corfforedig y Gogledd yn ei fabwysiadu'n ffurfiol ym mis Gorffennaf 2025 cyn gofyn i Lywodraeth Cymru ei fabwysiadu. Pwysleisiwyd bydd y Cynllun Datblygu Strategol wedi cael ei ffurfioli yn dilyn y camau hyn a bydd mor ei ddatblygu ymhellach, gan dderbyn adborth Llywodraeth Cymru ar amserlen fanwl y Cynllun Datblygu Strategol maes o law. Tynnwyd sylw y gobeithir bydd amserlen datblygu'r Cynllun hwn yn cyd-fynd gyda Chynlluniau Datblygu Lleol yr Awdurdodau Lleol.

Adroddwyd bod y berthynas glos rhwng y Cynllun Datblygu Strategol a'r Cynllun Trafnidiaeth Strategol yn sicrhau bod dull integredig cydweithredol yn cael ei fabwysiadu. Ymhelaethwyd bod y gwaith cydweithio hwn yn arwain at y gallu i gyflwyno prosiectau trawsnewidiol gan fod modd cyfuno gwybodaeth ac arbenigedd, cronni adnoddau a hyrwyddo ymgysylltiadau cynnar.

Gofynnwyd a yw'r Cynllun Datblygu Strategol yn darparu cyfleoedd ar gyfer cydweithio gyda mentrau trafnidiaeth preifat, cyhoeddus a chymunedol, megis y datblygiad a ystyrir fel rhan o gynllun Anturiaethau Cyfrifol y Cynllun Twf. Mewn ymateb, cadarnhaodd Prif Weithredwr Dros Dro Cyd-bwyllgor Corfforedig y Gogledd, bod dealltwriaeth o elfennau penodol o'r cynllun Anturiaethau Cyfrifol yn addas ar gyfer yr Is-bwyllgor hwn, gan gytuno i ychwanegu eitem esboniadol arno, ynghyd â materion eraill o bwysigrwydd trafnidiaeth, ar raglen yr Is-bwyllgor er mwyn rhannu gwybodaeth a dealltwriaeth ar sut mae prosiectau yn cydblethu. Pwysleisiwyd bod gwaith y mentrau cymunedol a fframwaith trafnidiaeth gyhoeddus yn bwysig iawn, gan gadarnhau bod Cyd-bwyllgor Corfforedig y Gogledd yn anelu i ddarparu datblygiadau sydd yn llenwi unrhyw fylchau ac yn hwyluso cysylltiadau rhanbarthol.

Dechreuodd y cyfarfod am 14:00 a daeth i ben am 15:20.

_____

Cadeirydd